

# Cynllun Gwaith B5: YMWHYBYDDIAETH O CHWARAE GEMAU

Dyma enghraifft o Gynllun Gwaith. Gallech greu un eich hun, gan ddefnyddio'r llyfr gwaith a'r adnoddau ar-lein sydd wedi'u darparu, gan ychwanegu eich syniadau a'ch adnoddau eich hun. Mae'r Cynllun Gwaith hwn yn dilyn cynllun Tymor Hir ehangach (sydd ar gael yn y ffolder adnoddau Ysgolion Cynradd) sy'n dilyn thema. Mae'n rhoi sylw i bynciau allweddol sy'n ymwneud â gamblo a chwarae gemau ar draws y pedwar Diben Addysg yng Nghymru, gan alluogi ein holl blant a phobl ifanc i fod yn: 1) Dysgwyr galluog ac uchelgeisiol 2) Cyfranwyr mentrus a chreadigol 3) Dinasyddion egwyddorol a gwybodus a 4) Unigolion iach a hyderus. Mae'n gwricwlwm sbiral, gyda phynciau a themâu allweddol yn cael eu hailystyried, tra'n cynyddu'r her, yn ehangu'r cwmpas, ac yn helpu myfyrwyr i feddwl yn fwy dwys drwy'r cyfnodau allweddol.

	GWEITHGAREDDAU	ADNODDAU
1	<p><b>YDYCH CHI'N ADNABOD EICH DYFAIS?</b>  <b>Dylunio holiadur am chwarae gemau</b></p> <p><b>Dechreuwch gyda thrafodaeth a chyflwyniad PowerPoint – YDYCH CHI'N ADNABOD EICH DYFAIS?</b></p> <p><b>Gweithgaredd: Pwy sy'n gwneud beth yn fy nosbarth i.....?</b>  Mewn grwpiau, lluniwch holiadur sy'n eich galluogi i gasglu gwybodaeth am ymddygiad sy'n gysylltiedig â chwarae gemau?  <b>OPSIWN 1:</b> dylunio holiadur gan ddefnyddio papur a beiro  <b>OPSIWN 2:</b> dylunio holiaduron ar gyfrifiadur</p> <p><b>Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru:</b>  CW02-06, CW08-11, CW14-15, CW17-18, CW21-22, CW26-27, CW29</p> <p><b>Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:</b>  Iechyd a Llesiant  Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu  Mathemateg a Rhifedd</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• B5G1</li> <li>• B5G1 PowerPoint 'Ydych chi'n adnabod eich dyfais'</li> <li>• Beiro a phapur</li> <li>• Dewisol: cyfrifiadur</li> </ul>
2	<p><b>GWYBODAETH: GEMAU</b>  <b>Dylunio gêm ddiogel i fyfyrwyr eraill</b></p> <p><b>Dechreuwch gyda thrafodaeth a chyflwyniad PowerPoint – GWYBODAETH: GEMAU</b></p> <p><b>Gweithgaredd: Dylunio gêm ddiogel newydd.</b>  Bydd grwpiau yn cael taflen A3 ac yn dylunio gêm newydd. Dylai fod yn gêm sydd hefyd yn gwarchod y bobl sy'n ei chwarae. Rhannwch eu syniadau gyda'r dosbarth.</p> <p><b>OPSIWN: Dewiswch ddyluniadau i'w harddangos</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• B5G2</li> <li>• B5G2 'Gwybodaeth: Gemau' - PowerPoint</li> <li>• Beiro a phapur</li> <li>• Deunyddiau crefft fel cerdyn mawr,</li> </ul>

	<p><b>Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru:</b> CW01-02, CW04-05, CW08-12, CW14, CW17-18, CW20-21, CW24, CW26-27, CW30-31</p> <p><b>Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:</b> Iechyd a Llesiant Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu</p>	<p>pensiliau lliw, glud</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dewisol: cyfrifiadur yn lle deunyddiau crefft</li> </ul>
<p><b>3</b></p>	<p><b>GEMAU DIOGEL</b> <b>Dylunio ymgyrch ymwybyddiaeth.</b> <b>Dechreuwch gyda thrafodaeth a chyflwyniad PowerPoint – Gemau Diogel: Ymgyrch</b></p> <p><b>Gweithgaredd: GEMAU - Y DEG UCHAF</b> (Taflen wedi'i hargraffu - dim sgoriau PEGI). Gofynnwch i'r myfyrwyr ymchwilio i'r sgoriau PEGI ar gyfer pob gêm. Pam mae sgoriau PEGI yn bodoli?</p> <p>Beth, yn eu barn nhw, yw'r risgiau eraill wrth chwarae gemau ar-lein?</p> <p>Y myfyrwyr i ddylunio poster am sut i gadw'n ddiogel wrth chwarae gemau?</p> <p>DS* Gellid gwneud hyn yn ystod wythnos defnyddio'r rhyngwrdd yn fwy diogel ym mis Chwefror, yn dibynnu ar eich rhaglen ABGI.</p> <p><b>Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru:</b> CW01-05, CW08-10, CW12-16, CW18, CW20-22, CW24-27, CW29-30</p> <p><b>Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:</b> Iechyd a Llesiant Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• B5G3</li> <li>• B5G3 'Gemau Diogel: Ymgyrch' - PowerPoint</li> <li>• Beiro a phapur</li> <li>• Adnodd B5G3: Trefnu cardiau gyda gemau a sgoriau PEGI</li> <li>• Deunyddiau crefft fel cerdyn mawr, pensiliau lliw, glud</li> <li>• Dewisol: cyfrifiadur yn lle deunyddiau crefft</li> <li>• Argraffwch y deg gêm uchaf.</li> </ul>
	<p><b><u>Tasg Gwaith Cartref</u></b></p> <p><b>Cadw dyddiadur o'ch gweithgaredd chwarae gemau</b></p> <p><b>Cofnodwch eich gweithgaredd bob dydd dros gyfnod o bythefnos i fonitro faint o amser rydych chi'n ei dreulio ar eich dyfeisiau electronig.</b></p>	<p>Gwaith cartref Cofnod Gweithgaredd Chwarae Gemau</p>
<p><b>4</b></p>	<p><b>Elfennau Cadarnhaol a Negyddol Chwarae Gemau.</b></p> <p><b>Arddangosfa ar wal:</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• B5G4</li> <li>• B5G4 Elfennau Cadarnhaol a</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Barddoniaeth - cerdd acrostig: GEMAU</b></li> <li>• <b>Gofynnwch i'r disgyblion gasglu 10 llun o chwarae gemau ac ychwanegu geiriau allweddol sy'n gysylltiedig â hynny.</b></li> <li>• <b>Y myfyrwyr i feddwl am elfennau cadarnhaol a negyddol chwarae gemau, defnyddio'r rhyngrwyd i wneud ymchwil.</b></li> </ul> <p><b>GWEITHGAREDD:</b> Creu arddangosfa wal ar gyfer yr ystafell ddosbarth gan edrych ar elfennau cadarnhaol a negyddol chwarae gemau.</p> <p><b>Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru:</b> CW01-02, CW04, CW08, CW11, CW14-16, CW18, CW20, CW22, CW27, CW29-31, CW33</p> <p><b>Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:</b> Celfyddydau Mynegiannol Iechyd a Llesiant Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu</p>	<p>Negyddol Chwarae Gemau - PowerPoint</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nodiadau post-it</li> <li>• Beiros a phapur</li> <li>• Deunyddiau crefft fel cerdyn mawr, pensiliau lliw, glud, y deunyddiau arddangos ar wal arferol</li> <li>• Dewisol: cyfrifiadur ar gyfer ymchwil a deunyddiau</li> </ul>
<p><b>5</b></p>	<p><b>Chwarae gemau a'r bobl o'n cwmpas. 1:</b></p> <p><b>Gweithgaredd Agoriadol:</b> Pa broblemau allai chwarae gemau eu hachosi ar gyfer gweddill y teulu?</p> <p><b>Meddyliwch am hyn:</b> Cyfeillgarwch, arian, problemau cysgu, arferion bwyta, arferion hylendid, effaith ar fywyd yn yr ysgol.</p> <p><b>Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru:</b> CW01-05, CW08-18, CW20-25, CW27, CW29-31, CW33</p> <p><b>Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:</b> Iechyd a Llesiant Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu Gwyddoniaeth a Thechnoleg</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• B5G5</li> <li>• PowerPoint B5G5: 'Chwarae gemau a'r bobl o'n cwmpas.1'</li> <li>• Beiros a phapur</li> <li>• Cyfrifiadur</li> </ul>
<p><b>6</b></p>	<p><b>Chwarae gemau a'r bobl o'n cwmpas.2:</b></p> <p><b>Gweithgaredd Agoriadol:</b> Edrychwch ar yr amser mae myfyrwyr wedi'i nodi fel amser yn chwarae gemau. Meddyliwch am bethau y gallen nhw eu gwneud yn lle chwarae gemau. Gallai'r disgyblion greu cawod meddwl neu wneud hyn fel gweithgaredd i'r dosbarth cyfan.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• B5G6</li> <li>• B5G6 'Chwarae gemau a'r bobl o'n cwmpas.2'</li> <li>• Beiros a phapur</li> </ul>

<p><b>Gweithgaredd</b> Rhowch 10 gweithgaredd arall i'r disgyblion y gallen nhw fod yn eu gwneud yn lle chwarae gemau, a gofyn iddyn nhw roi trefn ar y rhain a'u rhannu â'r dosbarth.</p> <p><b>Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru:</b> CW02-05, CW14, CW16, CW18, CW22, CW24-27, CW29, CW31, CW33</p> <p><b>Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:</b> Iechyd a Llesiant Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Trefnu cardiau (ADNODD)</li> <li>• Tocynnau gadael neu nodiadau post-it</li> <li>• Cyfrifiadur (dewisol)</li> </ul>
<p><b><u>Tasg Gwaith Cartref</u></b></p> <p><b>Y myfyrwyr i greu dyddiadur o wythnos arferol gan gynnwys amrywiaeth o weithgareddau i gydbwysu amser ar-lein/chwarae gemau.</b></p>	

# TAFLEN DDATA B5: Y DIWYDIANT CHWARAE GEMAU

Beth yw chwarae gemau?

Mae chwarae gemau yn cyfeirio at chwarae gemau electronig, boed hynny drwy gonsolau, cyfrifiaduron, ffonau symudol neu gyfrwng arall yn gyfan gwbl. (Technopedia, 2018).



## Pa fathau o gemau sydd yna?

**Gêm Ar-lein i Nifer Anferthol o Chwaraewyr: (MMO)** Mae'r gemau hyn yn cael eu chwarae drwy rwydwaith ardal leol (LAN) neu'r rhyngwyd gyda chwaraewyr o bob cwr o'r byd.

**Antur:** Gemau un chwaraewr yn gyffredinol, wedi'u lleoli mewn byd ffantasi, ac mae'n rhaid i'r chwaraewr feddwl sut mae cwblhau'r dasg.

**Chwaraeon:** Cymryd rhan mewn chwaraeon byd go iawn gan ddynwared athletwyr byd go iawn. Roedd y gemau mwyaf poblogaidd fel arfer yn cynnwys chwaraewyr/cyfranogwyr/gemau poblogaidd adnabyddus.

**Addysgiadol:** Mae'r gemau hyn yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau ac maen nhw'n gallu helpu i wneud dysgu'n hwyl ac yn rhyngweithiol.

UK Consumer Market

## Chwarae gemau yn y DU

Tynnodd UKIE (2019) sylw at y DU fel y **6ed** farchnad chwarae gemau fideo **fwyaf** yn 2018 ar ôl UDA, Tsieina, Japan, De Korea a'r Almaen. Mae tua **37.3 miliwn o bobl** yn y DU yn chwarae gemau.

Roedd gwariant defnyddwyr y DU ar gemau yn werth **£5.7bn yn 2018**.

### Chwarae Gemau:

Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi cydnabod y pryder cynyddol ynghylch chwarae gemau ar les pobl ifanc. Canfu ymchwil gan YGAM yn 2019 fod 79% o fyfyrwyr wedi chwarae gemau digidol, 17% wedi chwarae gemau bob dydd a 18% arall wedi chwarae gemau y rhan fwyaf o ddiwrnodau.

### Pam mae pobl ifanc yn chwarae gemau?

Dywedodd 74% o bobl ifanc eu bod yn chwarae gemau ar gyfer adloniant

Dywedodd 60% fod chwarae gemau yn ffordd dda o basio'r amser

Dywedodd 48% eu bod yn teimlo bod chwarae gemau yn lleihau lefelau straen

Dywedodd 45% eu bod yn mwynhau'r her/gystadleuaeth

Dywedodd 21% eu bod yn chwarae gemau oherwydd pwysau gan gyfoedion

YGAM (2019)

### Prynu o fewn y gêm:

Mae 31% o bobl ifanc 11 – 16 oed wedi agor trysorflwch mewn ap neu gêm cyfrifiadur. Roedd yr arian a wnaed o drysorflychau yn 2018 yn \$30 biliwn. (Y Comisiwn Hapchwarae 2019)

### Beth yw manteision chwarae gemau?

- Gall greu amser cymdeithasol gyda ffrindiau a theulu
- Dod yn rhan o gymuned
- Gall fod yn ffordd o ymlacio/yn hobi
- Gall helpu i ddysgu, i ddatblygu ac i fod yn greadigol
- Gall ddarparu sgiliau hanfodol ar gyfer gyrfya yn y dyfodol
- Gall ddatblygu sgiliau fel gwaith tîm a datrys problemau



### Beth yw risgiau chwarae gemau?

- Er bod chwarae gemau yn ffordd hwyllog o ryngweithio â phobl, mae rhai risgiau.
- Efallai y byddwch yn chwarae gyda phobl nad ydych yn eu hadnabod, a gall hyn fod yn beryglus
- Efallai y byddwch yn clywed iaith anwedus pan fyddwch chi'n chwarae ar-lein
- Efallai y byddwch yn cael eich annog i brynu pethau o fewn y gêm
- Gall fod yn anodd i rieni a gofawyr eich monitro chi a'ch cadw'n ddiogel
- Gall fynd yn gaethiwus ac felly effeithio ar berthnasoedd teuluol a chyfeillgarwch
- Gall bwlio ddigwydd ar-lein

### Pethau y gallwn ni eu gwneud i gadw'n ddiogel

- Gwirio sgôr PEGI/Oedran gêm a gwneud yn siŵr eu bod yn briodol
- Edrych ar gemau am rybuddion microdraffodion/trysorflychau
- Cysylltu cyfeiriad e-bost rhiant, yn hytrach na'ch un chi
- Defnyddio dulliau rheoli i rieni
- Annog cymryd seibiant yn rheolaidd
- Pennu terfynau amser i atal arferion drwg
- Annog amrywiaeth o weithgareddau
- (InternetMatters, 2020).



### Ffeithiau a ffigurau am chwarae gemau:

- Mae  $\frac{3}{4}$  o blant wedi chwarae gêm ar-lein pan oedden nhw rhwng 4 a 5 oed
- Mae bechgyn yn treulio mwy o amser na merched yn chwarae gemau
- Mae 42% o fenywod a 58% o ddynion yn y DU yn chwarae gemau
- Ar gyfartaledd, mae chwaraewyr 11 – 64 oed yn treulio tua 8.2 awr yr wythnos yn chwarae gemau
- Ym Mehefin 2018, roedd 2,261 o gwmnïau gemau gweithredol yn y DU
- (UKIE, 2019).

## Cyfeiriadau:

- InternetMatters (2020). *Online Gaming*. Ar gael yn: <https://www.internetmatters.org/resources/online-gaming-advice> [Cyrchwyd Mawrth 2020].
- Technopedia (2018). *Gaming: What is gaming?* Ar gael yn: <https://www.techopedia.com/definition/1913/gaming> [Cyrchwyd Mawrth 2020].
- UKIE (2019). *The Games Industry in Numbers*. Ar gael yn: < <https://ukie.org.uk/research> > [Cyrchwyd Mawrth 2020].

## B5G1: YDYCH CHI’N ADNABOD EICH DYFAIS?

**Mae’r wers hon yn ymwneud â her 4.4 yn y llyfryn Gweithgareddau:** Lluniwch arolwg, gan ganolbwyntio ar y gemau mae pobl ifanc yn eu chwarae. Faint o amser maen nhw’n ei dreulio ar y rhain? Ydyn nhw’n talu i chwarae? Cyflwynwch y canfyddiadau.

### Amcanion Dysgu:

- Deall sut mae eich cyd-ddisgyblion yn defnyddio dyfeisiau a gemau electronig
- Deall yr angen i gasglu gwybodaeth mewn fformat sy’n addas i’w phrosesu
- Gallu casglu a chyflwyno gwybodaeth am sut rydych chi a’ch cyd-ddisgyblion yn defnyddio dyfeisiau electronig a gemau

### Deilliannau Dysgu:

- Rydw i’n deall beth yw dulliau rheoli i rieni
- Rydw i’n gallu myfyrio ar ba ddyfeisiau rydw i’n eu defnyddio a sut rydw i’n eu defnyddio
- Rydw i’n deall pwysigrwydd casglu gwybodaeth mewn ffordd addas
- Rydw i’n gallu creu holiadur i gael gwybod sut mae fy nghyd-ddisgyblion yn defnyddio dyfeisiau a gemau electronig
- Rydw i’n gallu cofnodi atebion fy nghyd-ddisgyblion
- Rydw i’n gallu cyflwyno’r wybodaeth rydw i wedi’i chasglu

### Adnoddau:

- B5G1 PowerPoint ‘Ydych chi’n adnabod eich dyfais’
- Beiro a phapur
- Dewisol: cyfrifiadur

### Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru:

CW02-06, CW08-11, CW14-15, CW17-18, CW21-22, CW26-27, CW29

### Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:

- Iechyd a Llesiant
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd

**Diogelu:** Mae’n bwysig creu amgylchedd dysgu diogel a sefydlu rheolau sylfaenol clir. Dylai plant a phobl ifanc deimlo eu bod yn gallu gofyn am gymorth os oes angen. Gall y pwnc hwn arwain at rai plant yn rhannu gwybodaeth sensitif a phrofiadau personol. Dylid eu hatgoffa, ym mhob gwers, bod modd iddyn nhw siarad â staff yn yr ysgol. Gallwch hefyd rannu’r dewisiadau cyfeirio. Efallai yr hoffech gael cyngor gan Arweinydd Diogelu Dynodedig eich sefydliad.



**NODER: Gellir cwblhau'r wers hon fel gwers ar ei phen ei hun neu fel rhan o Gynllun Gwaith B5; hon yw'r rhan gyntaf o chwe gwers. Efallai yr hoffech gyflwyno'r sesiwn hon fel dwy wers ar wahân, ac felly efallai y byddwch yn dewis addasu'r Cynllun Gwaith i gyd-fynd ag anghenion eich ysgol.**

I ddechrau	Prif ran	Pawb gyda'i gilydd
<p><b>Gweithgaredd - dewch i ni siarad...</b></p> <p>Trafodaeth dosbarth – trafodwch y cwestiynau canlynol a dewis detholiad o ymatebion neu gwnewch siart cyfrif drwy ddangos dwylo.</p> <p>Faint oedd eich oed chi pan gawsoch chi eich dyfais electronig gyntaf?</p> <p>Beth oedd y ddyfais ac a oedd unrhyw dulliau rheoli i rieni ar gael? Gwnewch yn siŵr bod y myfyrwyr yn gwybod beth yw ystyr dulliau rheoli i rieni.</p> <p>Oedd y dulliau rheoli hyn i rieni wedi cael eu rhoi ar waith?</p> <p>Ydy'ch rhieni yn diweddarau'r dulliau rheoli i rieni yn rheolaidd?</p> <p>Pwy sy'n talu am unrhyw gemau ac eitemau sy'n cael eu prynu o fewn y gemau?</p>	<p>Sut gallwn ni ganfod a chasglu gwybodaeth am ddefnydd ein cyd-ddisgyblion o ddyfeisiau a gemau? Pam ei bod hi'n bwysig casglu data a'i gyflwyno'n gywir?</p> <p><b>Gweithgaredd: Pwy sy'n gwneud beth yn fy nosbarth i.....?</b></p> <p>Mewn grwpiau, bydd y myfyrwyr yn llunio holiadur sy'n eu galluogi nhw i gasglu gwybodaeth am ymddygiad sy'n gysylltiedig â chwarae gemau. (Ysgrifennwch y cwestiynau ar y bwrdd).</p> <p>Beth maen nhw'n ei chwarae? Pwy dalodd am y gêm? Faint o amser maen nhw'n ei dreulio'n chwarae bob dydd/wythnos/mis? Petaen nhw'n cael dewis, a fydden nhw'n treulio mwy o amser neu lai o amser yn chwarae'r gemau hyn? Faint sy'n chwarae gemau gyda defnyddwyr eraill?</p> <p>Gall myfyrwyr ddechrau grwpio data a chreu datganiadau. Estyniad: Gellid cyflwyno ffracsïynau yma. <i>Er enghraifft, dywedodd 5 myfyriwr o bob 20 fod... myfyrwyr yn chwarae gemau 4/7 diwrnod yr wythnos.</i></p>	<p><b>Gweithgaredd - Rydw i'n falch o gyflwyno...</b></p> <p>Yr athro i ofyn i'r grwpiau gyflwyno eu canfyddiadau.</p> <p>Yr athro i grynhoi'r canfyddiadau ar y bwrdd.</p> <p>Yr athro i drafod y canfyddiadau a gofyn cwestiynau allweddol, <i>er enghraifft, os yw 80% o fyfyrwyr yn treulio 3 awr y dydd ar gemau, a yw hynny'n golygu cydbwysedd da â gweithgareddau eraill, sut gallem leihau hynny?</i></p> <p><b>Athro i atgoffa'r myfyrwyr o ble gallan nhw gael help. Os ydyn nhw'n poeni am eu perthynas eu hunain neu berthynas rhywun arall â chwarae gemau neu gamblo, gallan nhw siarad ag aelod o staff.</b></p> <p><b>Dewisiadau cyfeirio: BigDeal a Childline.</b></p>

<p>Faint ydych chi'n ei wario bob mis ar chwarae gemau?</p>	<p><b>OPSIWN 1:</b> dylunio holiadur gan ddefnyddio papur a beiro.</p> <p><b>OPSIWN 2:</b> dylunio holiaduron ar gyfrifiadur.</p>	
---	---	--

## B5G2: GWYBODAETH: GEMAU

**Mae'r wers hon yn ymwneud â her 4.3 yn y llyfryn Gweithgareddau:** Dyfeisio/creu syniad ar gyfer gêm ddiogel am ddim a fydd yn ddeniadol i bobl ifanc. Meddyliwch am agweddau ar ddiogelwch yn eich dyluniad.

### Amcanion Dysgu:

- Trafod y mathau o gemau sy'n cael eu chwarae a sut mae'r gemau hyn yn cael eu chwarae
- Dadansoddi'r risgiau mewn gemau a datblygu arferion mwy diogel
- Gwerthuso'r gemau presennol ar y farchnad a datblygu gêm fwy diogel

### Deilliannau Dysgu:

- Rydw i'n gallu adnabod y mathau o gemau mae fy ngrŵp oedran yn eu chwarae
- Rydw i'n gallu trafod sut mae'r gemau hyn yn cael eu chwarae, pa mor aml a gyda phwy
- Rydw i'n gallu adnabod y risgiau sy'n gysylltiedig â chwarae gemau
- Rydw i'n gallu trafod ffyrdd o wneud chwarae gemau'n fwy diogel
- Rydw i'n gallu gweithio fel aelod o grŵp i greu gêm fwy diogel

### Adnoddau:

- B5G2 PowerPoint 'Gwybodaeth: Gemau'
- Beiro a phapur
- Deunyddiau crefft fel cerdyn mawr, pensiliau lliw, glud
- Dewisol: cyfrifiadur yn lle deunyddiau crefft

### Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru:

CW01-02, CW04-05, CW08-12, CW14, CW17-18, CW20-21, CW24, CW26-27, CW30-31

### Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:

- Iechyd a Llesiant
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

**Diogelu:** Mae'n bwysig creu amgylchedd dysgu diogel a sefydlu rheolau sylfaenol clir. Dylai plant a phobl ifanc deimlo eu bod yn gallu gofyn am gymorth os oes angen. Gall y pwnc hwn arwain at rai plant yn rhannu gwybodaeth sensitif a phrofiadau personol. Dylid eu hatgoffa, ym mhob gwrs, bod modd iddyn nhw siarad â staff yn yr ysgol. Gallwch hefyd rannu'r dewisiadau cyfeirio. Efallai yr hoffech gael cyngor gan Arweinydd Diogelu Dynodedig eich sefydliad.

**NODER: Gellir cwblhau'r wers hon fel gwers ar ei phen ei hun neu fel rhan o Gynllun Gwaith B5; hon yw'r ail ran o chwe gwers. Efallai yr hoffech gyflwyno'r sesiwn hon fel dwy wers ar wahân, ac felly efallai y byddwch yn dewis addasu'r Cynllun Gwaith i gyd-fynd ag anghenion eich ysgol.**

I ddechrau	Prif ran	Pawb gyda'i gilydd
<p><b>Gweithgaredd - Rho bump i mi...</b></p> <p>Bydd y myfyrwyr yn tynnu llun o'u dwylo ac yna'n ysgrifennu hyd at bum gêm sy'n cael eu chwarae ar hyn o bryd, un ar bob digid.</p> <p>Yr athro i gymryd y pum gêm fwyaf cyffredin a'u hysgrifennu ar y bwrdd.</p> <p>Trafodwch: Pa gemau yw'r rhai mwyaf poblogaidd?</p> <p>Yr athro i roi'r gemau yn ôl trefn eu poblogrwydd ar y bwrdd i ddangos sgiliau trefnu a gwerthuso.</p>	<p><b>Gêm Ddiogel:</b></p> <p>Dechreuwch sgwrs am gemau gan ofyn y cwestiynau canlynol: Oes gennych chi ddyfais? Ydych chi'n chwarae gemau arni? Faint o amser ydych chi'n ei dreulio ar eich dyfeisiau bob wythnos? Pa sgiliau a gwybodaeth y gellir eu datblygu drwy chwarae gemau? Ydych chi'n cystadlu yn erbyn eich ffrindiau ar-lein? Ydych chi'n cystadlu yn erbyn pobl ddieithr ar-lein? Ydych chi'n gwylio pobl eraill yn chwarae gemau?</p> <p>Sut mae safleoedd gemau'n cael eu datblygu a sut ydyn ni'n cael ein cadw'n ddiogel? Sut ydych chi'n cadw eich hun yn ddiogel?</p> <p><b>Gweithgaredd: Dylunio gêm ddiogel newydd.</b></p> <p>Gan weithio mewn grwpiau, bydd y myfyrwyr yn cael taflen A3 i ddylunio gêm newydd sydd hefyd yn gwarchod y chwaraewyr.</p> <p>OPSIWN: Cyn dechrau arni, tynnwch lun o fwlb golau ar y bwrdd a chymryd amrywiaeth o syniadau a'u hychwanegu y tu mewn i'r bwlb – bydd hyn yn helpu grwpiau sy'n cael trafferth.</p>	<p><b>Gweithgaredd - dewch i ni bleidleisio: 1</b> Athro i ofyn i grwpiau gyflwyno eu gemau i weddill y dosbarth.</p> <p>Athro / pennaeth / Uwch Dîm Arwain i ddewis y ddwy gêm orau i'w dangos a'u defnyddio yn ystod amser chwarae gwlyb ac ati.</p> <p><b>Neu – Dewch i ni bleidleisio. 2</b> Gallech hefyd ddefnyddio hyn fel cyfle i asesu cymheiriaid. Gallai pob grŵp gwblhau carwsél ac ysgrifennu adborth cadarnhaol ac adeiladol ar gyfer gemau'r grwpiau eraill.</p> <p><b>Athro i atgoffa'r myfyrwyr o ble gallan nhw gael help. Os ydyn nhw'n poeni am eu perthynas eu hunain neu berthynas rhywun arall â chwarae gemau neu gamblo, gallan nhw siarad ag aelod o staff.</b></p> <p><b>Dewisiadau cyfeirio: BigDeal a Childline.</b></p>

	<p><b>OPSIWN 1:</b> dylunio gêm gan ddefnyddio deunyddiau crefft.</p> <p><b>OPSIWN 2:</b> dylunio gêm gan ddefnyddio TGCh.</p>	
--	--	--

## B5G3: GEMAU DIOGEL

**Mae'r wers hon yn ymwneud â'r Her Ymgyrch Chwarae Gemau'n Fwy Diogel yn y Llyfryn Gweithgareddau:** Cynnal ymgyrch ynghylch sut i gadw'n ddiogel wrth chwarae gemau. Beth yw'r prif faterion?

### Amcanion Dysgu:

- Deall ystyr sgoriau PEGI a pham maen nhw'n cael eu defnyddio
- Gwerthuso'r risgiau sy'n gysylltiedig â chwarae gemau
- Creu ymgyrch chwarae gemau'n fwy diogel

### Deilliannau Dysgu:

- Rydw i'n gallu egluro beth yw sgôr PEGI a pham mae'n bwysig
- Rydw i'n gallu ymchwilio i sgoriau PEGI gwahanol gemau
- Rydw i'n gallu adnabod y risgiau sy'n gysylltiedig â chwarae gemau
- Rydw i'n gallu trafod ffyrdd o wneud chwarae gemau'n fwy diogel
- Rydw i'n gallu gweithio fel aelod o grŵp i greu ymgyrch chwarae gemau'n fwy diogel
- Rydw i'n gallu defnyddio gwahanol strategaethau i ennyn diddordeb fy nghyfoedion a chynulleidfa ehangach

### Adnoddau:

- B5G3 PowerPoint 'Ymgyrch Chwarae Gemau'n Fwy Diogel'
- Adnodd B5G3: Trefnu cardiau gyda gemau a sgoriau PEGI
- Beiro a phapur
- Deunyddiau crefft fel cerdyn mawr, pensiliau lliw, glud
- Dewisol: cyfrifiadur yn lle deunyddiau crefft

### Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru:

CW01-05, CW08-10, CW12-16, CW18, CW20-22, CW24-27, CW29-30

### Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:

- Iechyd a Llesiant
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

**Diogelu:** Mae'n bwysig creu amgylchedd dysgu diogel a sefydlu rheolau sylfaenol clir. Dylai plant a phobl ifanc deimlo eu bod yn gallu gofyn am gymorth os oes angen. Gall y pwnc hwn arwain at rai plant yn rhannu gwybodaeth sensitif a phrofiadau personol. Dylid eu hatgoffa, ym mhob gwers, bod modd iddyn nhw siarad â staff yn yr ysgol. Gallwch hefyd rannu'r dewisiadau cyfeirio. Efallai yr hoffech gael cyngor gan Arweinydd Diogelu Dynodedig eich sefydliad.


**NODER: Gellir cwblhau'r wers hon fel gwers ar ei phen ei hun neu fel rhan o Gynllun Gwaith B5; hon yw'r drydedd rhan o chwe gwers. Efallai yr hoffech gyflwyno'r sesiwn hon fel dwy wers ar wahân, ac felly efallai y byddwch yn dewis addasu'r Cynllun Gwaith i gyd-fynd ag anghenion eich ysgol.**

I ddechrau	Prif ran	Pawb gyda'i gilydd
<p><b>Gweithgaredd – Meddwl, Paru, Rhannu</b></p> <p>Mae'r athro'n dangos y 5 sgôr PEGI ar y bwrdd ac yn gofyn i'r myfyrwyr feddwl beth yw'r lluniau, yna trafod hyn mewn paru, a rhannu eu barn fel dosbarth ar y diwedd.</p> <p>Yr athro i ddangos ystyr sgôr PEGI a'r meini prawf ar gyfer pob sgôr.</p> <p>Yr athro i ofyn y cwestiynau canlynol:            Ble mae eich dyfais electronig yn ystod y nos?            Ydy prynu pethau mewn apiau wedi'i alluogi?            Beth yw sgôr PEGI y gemau rydych chi'n eu chwarae?            Beth allech chi ei wneud yn lle chwarae gemau?</p> <p><b>**At ddibenion myfyrwyr oed cynradd, mae disgrifiadau o bob sgôr wedi cael eu cadw'n syml ac mae iaith sensitif wedi cael ei dileu.**</b></p> <p>DS: Rhaid i gemau sy'n cynnwys trysorflychau/microdraffodion gynnwys label rhybudd 'Prynu o fewn y Gêm – yn cynnwys eitemau ar hap' o fis Ebrill 2020 ymlaen. Mae'r canllawiau hyn wedi dod gan ERSB ac maen nhw'n berthnasol i'r DU ac</p>	<p><b>Gweithgaredd 2 – Opsiwn 1: Y DEG GÊM UCHAF (opsiwn heb TG).</b></p> <p>Argraffwch y daflen gemau a gofyn i'r myfyrwyr neilltuo'r sgoriau PEGI i'r gêm gywir. Mae modd defnyddio hyn fel tasg rhoi trefn ar gardiau.</p> <p><b>Gweithgaredd 2 – Opsiwn 2: Y DEG GÊM UCHAF (opsiwn TG).</b></p> <p>Argraffwch y daflen gemau a gofyn i'r myfyrwyr ymchwilio i'r sgoriau PEGI ar gyfer pob gêm.</p> <p>Atebion:            3 – Animal Crossing, Fifa            7 – Rayman, Lego Batman            12 – Fortnite, Overwatch            16 – Battlefield, Final Fantasy            18 – GTA, Call of Duty</p> <p><b>Gweithgaredd: Dewch i ni siarad...</b></p> <p>Pam mae sgoriau PEGI yn bodoli? A fydden nhw am i'w brawd/chwaer/ffrind iau chwarae gemau gyda sgôr PEGI hŷn? Beth, yn eu barn nhw, yw'r risgiau eraill wrth chwarae gemau ar-lein? Gofynnwch iddyn nhw feddwl am brynu pethau mewn gemau /trysorflychau /cratia /chwarae mewn fforymau ac yn erbyn eraill (hysbys/anhysbys)</p> <p><b>Gweithgaredd: Poster yr Ymgyrch Chwarae Gemau'n Fwy Diogel</b></p> <p>Y disgyblion i ddylunio poster yn egluro sut i gadw'n ddiogel wrth</p>	<p><b>Gweithgaredd – Bod yn athro/athrawes...</b></p> <p>Bydd y disgyblion yn cymryd lle'r athro ac yn rhannu ac yn cyflwyno eu poster i'r dosbarth er mwyn addysgu'r dosbarth am y risgiau a'r mesurau diogelwch sydd eu hangen wrth chwarae gemau.</p> <p>Cyfle i'r ysgol ehangach: Gellid defnyddio posteri i greu arddangosfa ac i arwain gwasanaethau neu i'w hanfon gartref, gan gynnwys yr ysgol gyfan yn yr ymgyrch.</p> <p><b>Tasg Gwaith Cartref: Cadw dyddiadur gweithgareddau chwarae gemau</b></p> <p>Cofnodwch eich gweithgaredd bob dydd dros gyfnod o bythefnos i fonitro faint o amser rydych chi'n ei dreulio ar eich dyfeisiau electronig.</p> <p>Yn ddelfrydol, dylai myfyrwyr gadw eu dyddiaduron eu hunain a byddai hyn yn cysylltu'n dda â'r cwricwlwm cyfrifiadura a rhifedd. Fodd bynnag, yn y pecyn adnoddau ar gyfer gwers 3, mae templed ar gael os bydd angen.</p> <p><b>Athro i atgoffa'r myfyrwyr o ble gallan nhw gael help. Os ydyn nhw'n poeni am eu perthynas eu hunain neu</b></p>

<p>Ewrop. (mae'r wybodaeth hon yn gywir ym mis Ebrill 2020)</p>	<p>chwarae gemau. Plant Ysgol Gynradd eraill yw eu cynulleidfa darged ar gyfer y poster. Pethau i feddwl amdany'n nhw: Beth yw'r prif faterion? Beth fydd angen iddyn nhw ei wneud i gyfleu eu safbwynt?</p>	<p><b>berthynas rhywun arall â chwarae gemau neu gamblo, gallan nhw siarad ag aelod o staff.</b> <b>Dewisiadau cyfeirio: BigDeal a Childline.</b></p>
---	--	---



## B5G3: ADNODDAU



NODER: Rhaid i gemau sy'n cynnwys microdraffodion fel trysorflychau a phrynu pethau mewn gemau gynnwys label rhybudd 'Prynu o fewn y Gêm – yn cynnwys eitemau ar hap.' Mae'r canllawiau hyn wedi dod gan ERSB ac maen nhw'n berthnasol i'r DU ac Ewrop. Mae'r wybodaeth hon yn gywir ym mis Ebrill 2020

## Gwaith cartref – cadw dyddiadur

Cofnodwch faint o amser rydych chi'n ei dreulio ar unrhyw fath o gyfryngau cymdeithasol ac yn chwarae gemau. Sut mae hyn yn cymharu â gweithgareddau eraill? Pa gasgliadau allwch chi ddod iddyn nhw?

Diwrnod/Dyddiad	Gweithgaredd	Amser a dreuliwyd

# B5G4: ELFENNAU CADARNHAOL A NEGYDDOL

## CHWARAE GEMAU

Mae'r wers hon yn ymwneud â Her Manteision ac Anfanteision Chwarae Gemau - Cynradd yn y Llyfryn Gweithgareddau: Casglwch ddelweddau o chwarae gemau a'r geiriau allweddol sy'n gysylltiedig â hynny. Ewch ati i greu arddangosfa wal.

### Amcanion Dysgu:

- Adnabod elfennau cadarnhaol chwarae gemau
- Adnabod elfennau negyddol chwarae gemau
- Creu arddangosfa wal sy'n llawn gwybodaeth

### Deilliannau Dysgu:

- Rydw i'n gallu adnabod delweddau allweddol chwarae gemau
- Rydw i'n gallu adnabod y geiriau allweddol sy'n gysylltiedig â chwarae gemau
- Rydw i'n gallu trafod elfennau cadarnhaol a negyddol chwarae gemau
- Rydw i'n gallu gwranddo ar safbwyntiau pobl eraill a pharchu eu barn
- Rydw i'n gallu gweithio fel aelod o grŵp i greu arddangosfa wal sy'n llawn gwybodaeth

### Adnoddau:

- B5G4 Elfennau Cadarnhaol a Negyddol Chwarae Gemau - PowerPoint
- Nodiadau post-it
- Beiros a phapur
- Deunyddiau crefft fel cerdyn mawr, pensiliau lliw, glud, y deunyddiau arddangos ar wal arferol
- Dewisol: cyfrifiadur ar gyfer ymchwil a deunyddiau

### Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru:

CW01-02, CW04, CW08, CW11, CW14-16, CW18, CW20, CW22 CW27, CW29-31, CW33

### Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:

- Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Llesiant
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

**Diogelu:** Mae'n bwysig creu amgylchedd dysgu diogel a sefydlu rheolau sylfaenol clir. Dylai plant a phobl ifanc deimlo eu bod yn gallu gofyn am gymorth os oes angen. Gall y pwnc hwn arwain at rai plant yn rhannu gwybodaeth sensitif a phrofiadau personol. Dylid eu hatgoffa, ym mhob gwers, bod modd iddyn nhw siarad â staff yn yr ysgol. Gallwch hefyd rannu'r

dewisiadau cyfeirio. Efallai yr hoffech gael cyngor gan Arweinydd Diogelu Dynodedig eich sefydliad.

**NODER: Gellir cwblhau'r wers hon fel gwers ar ei phen ei hun neu fel rhan o Gynllun Gwaith B5; hon yw'r bedwaredd ran o chwe gwers. Efallai yr hoffech gyflwyno'r sesiwn hon fel dwy wers ar wahân, ac felly efallai y byddwch yn dewis addasu'r Cynllun Gwaith i gyd-fynd ag anghenion eich ysgol.**

I ddechrau	Prif ran	Pawb gyda'i gilydd
<p><b>Gweithgaredd – Post-it...</b></p> <p>Yr athro yn rhoi 2 post-it i bob pâr neu grŵp. Mae'r myfyrwyr yn ysgrifennu elfennau cadarnhaol chwarae gemau ar un nodyn, a'r elfennau negyddol ar y llall.</p> <p>Mae'r athro'n rhannu'r bwrdd yn ei hanner (cadarnhaol a negyddol) ac yn gofyn i'r myfyrwyr roi eu post-its ar y bwrdd yn y colofnau cywir.</p> <p>Yna bydd yr athro'n darllen y nodiadau i'r dosbarth.</p>	<p><b>Gweithgaredd - Creu arddangosfa wal.</b></p> <p>Mae'r dasg hon wedi'i rhannu'n adrannau bach. Gallai'r athro gael grwpiau gwahanol i weithio ar wahanol adrannau neu gallai gyfuno syniadau o bob grŵp.</p> <p><b>Tasg 1: Barddoniaeth - cerdd acrostig: GEMAU</b></p> <p>Bydd y disgyblion yn creu cerdd acrostig ar gyfer yr arddangosfa wal.</p> <p><b>Tasg 2: Casglu delweddau a geiriau allweddol.</b> Y myfyrwyr i gasglu 10 llun sy'n gysylltiedig â chwarae gemau. Y myfyrwyr i gasglu geiriau allweddol am chwarae gemau. Gellid gwneud hyn fel wal eiriau neu gwmwl geiriau.</p> <p><b>Tasg 3: Cadarnhaol a negyddol.</b></p> <p>Y myfyrwyr i feddwl am elfennau cadarnhaol a negyddol chwarae gemau. Opsiwn TG: Y myfyrwyr i</p>	<p><b>Gweithgaredd - dewch i ni siarad...</b></p> <p>Yr athro i rannu'r dosbarth yn ei hanner. Y myfyrwyr i drafod elfennau cadarnhaol a negyddol chwarae gemau, gan ddefnyddio'r arddangosfa wal fel eu pwynt cyfeirio.</p> <p><b>Athro i atgoffa'r myfyrwyr o ble gallan nhw gael help. Os ydyn nhw'n poeni am eu perthynas eu hunain neu berthynas rhywun arall â chwarae gemau neu gamblo, gallan nhw siarad ag aelod o staff.</b></p> <p><b>Dewisiadau cyfeirio: BigDeal a Childline.</b></p>

	<p>ddefnyddio'r rhyngwyd i ymchwilio.</p> <p>Dewch â'r tasgau at ei gilydd i greu arddangosfa wal ar gyfer yr ystafell ddisbarth gan edrych ar elfennau cadarnhaol a negyddol chwarae gemau.</p>	
--	--	--

# B5G5: CHWARAE GEMAU A'R BOBL O'N CWMPAS. 1

## Mae'r wers hon yn ymwneud â'r Her Trafod Dyfeisiau yn y Llyfryn Gweithgareddau:

Paratowch gyflwyniad PowerPoint neu rywbeth tebyg ar gyfer gwasanaeth dosbarth neu grŵp blwyddyn, gan ganolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â defnyddio dyfeisiau electronig a gemau cymdeithasol.

## Amcanion Dysgu:

- Nodi problemau sy'n ymwneud â chwarae gemau a defnyddio dyfeisiau electronig ar gyfer yr unigolyn
- Nodi problemau sy'n ymwneud â chwarae gemau a defnyddio dyfeisiau electronig ar gyfer y teulu/gymuned
- Addysgu eich cyfoedion am y problemau y gall chwarae gemau eu hachosi yn y teulu/gymuned

## Deilliannau Dysgu:

- Rydw i'n gallu nodi'r prif broblemau y mae chwarae gemau a defnyddio dyfeisiau electronig yn eu hachosi
- Rydw i'n gallu rhannu'r problemau yn ôl themâu allweddol fel arian, cyfeillgarwch ac ati
- Rydw i'n gallu gweithio fel aelod o grŵp i greu cyflwyniad PowerPoint sy'n llawn gwybodaeth (neu rywbeth tebyg)
- Rydw i'n gallu cyflwyno gwybodaeth i gynulleidfa ehangach

## Adnoddau:

- B5G6 PowerPoint 'Chwarae gemau a'r bobl o'n cwmpas.1'
- Beiros a phapur
- Cyfrifiadur
- Bwrdd neu ddeunyddiau crefft i greu baner, poster, arddangosfa ac ati (Os nad oes TGCh ar gael)

## Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru:

CW01-05, CW08-18, CW20-25, CW27, CW29-31, CW33

## Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:

- Iechyd a Llesiant
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

**Diogelu:** Mae'n bwysig creu amgylchedd dysgu diogel a sefydlu rheolau sylfaenol clir. Dylai plant a phobl ifanc deimlo eu bod yn gallu gofyn am gymorth os oes angen. Gall y pwnc hwn arwain at rai plant yn rhannu gwybodaeth sensitif a phrofiadau personol. Dylid eu hatgoffa, ym mhob gwers, bod modd iddyn nhw siarad â staff yn yr ysgol. Gallwch hefyd rannu'r dewisiadau cyfeirio. Efallai yr hoffech gael cyngor gan Arweinydd Diogelu Dynodedig eich sefydliad.

**NODER:** Gellir cwblhau'r wers hon fel gwrs ar ei phen ei hun neu fel rhan o Gynllun Gwaith B5; hon yw'r bumed ran o chwe gwrs. Efallai yr hoffech gyflwyno'r sesiwn hon fel dwy wers ar wahân, ac felly efallai y byddwch yn dewis addasu'r Cynllun Gwaith i gyd-fynd ag anghenion eich ysgol.

I ddechrau	Prif ran	Pawb gyda'i gilydd
<p><b>Gweithgaredd: Rho bump i mi...</b></p> <p>Pa broblemau allai chwarae gemau eu hachosi ar gyfer cyfeillgarwch, teuluoedd a chymunedau?</p> <p>Bydd y disgyblion yn tynnu llun o'u llaw ac yna'n ysgrifennu pum problem sy'n ymwneud â defnyddio dyfeisiau electronig a chwarae gemau, un ar bob digid.</p> <p>Yr athro i dynnu llun dwy law fawr ar y bwrdd. Athro i gymryd 10 problem o bob rhan o'r dosbarth a'u hychwanegu at y dwylo ar y bwrdd.</p> <p>Athro i drafod y 10 problem, gan drafod pam y gallai pob un fod yn broblem i</p>	<p><b>Gweithgaredd: Creu cyflwyniad PowerPoint, neu rywbeth tebyg.</b></p> <p>Mae myfyrwyr yn cael eu rhannu yn grwpiau. Yn ddelfrydol, dylid cael 10 grŵp a gall pob grŵp ganolbwyntio ar un o'r problemau yn fanwl.</p> <p>Mae'r myfyrwyr yn creu sleidiau sy'n rhoi gwybod i'w cyfoedion am y problemau sy'n ymwneud â chwarae gemau.</p> <p>Estyniad: Gallai'r myfyrwyr gynnig atebion i'r broblem a neilltuwyd iddyn nhw. Byddai hyn yn datblygu eu sgiliau datrys problemau ac yn eu hannog i feddwl sut i gynnal perthnasoedd teuluol cadarnhaol.</p>	<p><b>Gweithgaredd: Rydw i'n falch o gyflwyno...</b></p> <p>Bydd y myfyrwyr yn cyflwyno eu canfyddiadau i grŵp arall er mwyn cael adborth a datblygu eu gwaith. Gellid defnyddio dwy seren a dymuniad neu debyg yma.</p> <p>Yna bydd y myfyrwyr yn cyflwyno eu canfyddiadau yn y gwasanaeth.</p> <p><b>Athro i atgoffa'r myfyrwyr o ble gallan nhw gael help. Os ydyn nhw'n poeni am eu perthynas eu hunain neu berthynas rhywun arall â chwarae gemau neu gamblo, gallan nhw siarad ag aelod o staff.</b></p> <p><b>Dewisiadau cyfeirio: BigDeal a Childline.</b></p>

<p>unigolion, teuluoedd a chymunedau.</p> <p><b>Pethau i feddwl amdany</b>  <b>nhw:</b> Cyfeillgarwch, arian, problemau cysgu, arferion bwyta, arferion hylendid, effaith ar fywyd yn yr ysgol.</p>	<p>Yr athro i gasglu sleidiau at ei gilydd i greu prif gyflwyniad PowerPoint a fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwasanaeth. Gallai'r gwasanaeth fod yn un dosbarth neu ar gyfer grŵp blwyddyn.</p> <p>Opsiwn heb TG: Os yw cael mynediad at TG yn broblem, gallai'r plant greu poster neu faner fawr ar gyfer eu problem. Gellid cyflwyno hyn wedyn yn lle'r PowerPoint yn y gwasanaeth.</p>	
---	---	--



# B5G6: CHWARAE GEMAU A'R BOBL O'N CWMPAS. 2

**Mae'r wers hon yn ymwneud â Her Cymysgu'r Cyfan - Cynradd yn y Llyfryn**

**Gweithgareddau:** Beth allwn ni ei wneud yn lle chwarae gemau i sicrhau cydbwysedd rhwng ein hamser a'n harian. Beth arall allen ni ei wneud? Ewch ati i greu dyddiadur/amserlen ar gyfer sut gallech dreulio eich amser.

## Amcanion Dysgu:

- Canfod ffyrdd o sicrhau cydbwysedd o ran ein hamser
- Ystyried a gwerthuso'r gwahanol fathau o weithgareddau a allai fod yn ddewis amgen i chwarae gemau.

## Deilliannau Dysgu:

- Rydw i'n gallu myfyrio ar yr amser a dreuliais yn chwarae gemau ochr yn ochr â hobiau eraill
- Rydw i'n gallu gwerthuso'r gwahanol weithgareddau a blaenoriaethu gweithgareddau a fyddai o ddiddordeb i mi a'm teulu/cymuned
- Rydw i'n gallu cyflwyno cynllun gweithredu
- Rydw i'n gallu cofnodi'r amser a dreuliwyd yn gwneud gwahanol weithgareddau a chymharu hynny â'r cofnod yn fy nyddiadur blaenorol.

## Adnoddau:

- B5G6 'Chwarae gemau a'r bobl o'n cwmpas. 2': PowerPoint
- Beiros a phapur
- B5G6 Trefnu cardiau (ADNODD)
- Tocynnau gadael neu nodiadau post-it
- Cyfrifiadur (dewisol)

## Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru:

CW02-05, CW14, CW16, CW18, CW22, CW24-27, CW29, CW31, CW33

## Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:

- Iechyd a Llesiant
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

**Diogelu:** Mae'n bwysig creu amgylchedd dysgu diogel a sefydlu rheolau sylfaenol clir. Dylai plant a phobl ifanc deimlo eu bod yn gallu gofyn am gymorth os oes angen. Gall y pwnc hwn arwain at rai plant yn rhannu gwybodaeth sensitif a phrofiadau personol. Dylid eu hatgoffa,

ym mhob gwers, bod modd iddyn nhw siarad â staff yn yr ysgol. Gallwch hefyd rannu'r dewisiadau cyfeirio. Efallai yr hoffech gael cyngor gan Arweinydd Diogelu Dynodedig eich sefydliad.

**NODER: Gellir cwblhau'r wers hon fel gwers ar ei phen ei hun neu fel rhan o Gynllun Gwaith B5; hon yw'r chweched ran o chwe gwers. Efallai yr hoffech gyflwyno'r sesiwn hon fel dwy wers ar wahân, ac felly efallai y byddwch yn dewis addasu'r Cynllun Gwaith i gyd-fynd ag anghenion eich ysgol.**

I ddechrau	Prif ran	Pawb gyda'i gilydd
<p><b>Gweithgaredd: Meddwl, Paru, Rhannu...</b></p> <p>Mae'r athro yn gofyn i'r myfyrwyr feddwl am unrhyw broblemau a allai godi o ganlyniad i chwarae gemau, a thrafod y problemau hynny.</p> <p>Dylai'r dasg hon adfer gwybodaeth o'r wers flaenorol a bod yn llinell sylfaen ar gyfer y wers hon.</p> <p><b>Pethau i feddwl amdany'n nhw:</b> Cyfeillgarwch, arian, problemau cysgu, arferion bwyta, arferion hylendid, effaith ar fywyd yn yr ysgol.</p>	<p><b>Gweithgaredd: Dewch i ni drafod...</b></p> <p>Mae'r athro yn gofyn i'r myfyrwyr feddwl am ar yr amser maen nhw wedi'i dreulio'n chwarae gemau ac ystyried pethau y gallen nhw eu gwneud yn lle chwarae gemau.</p> <p>Gallai'r myfyrwyr weithio mewn grwpiau i greu cawod meddwl neu gallai'r dosbarth greu map meddwl fel gweithgaredd i'r dosbarth cyfan.</p> <p>Gallai'r athro gymryd amrywiaeth o atebion a'u hysgrifennu ar y bwrdd.</p> <p><b>Gweithgaredd: Tasg trefnu</b></p> <p>Yr athro i dorri'r daflen adnoddau a rhoi set i bob grŵp o fyfyrwyr. Mae'r myfyrwyr yn cael 10 gweithgaredd arall y gallen nhw fod yn eu gwneud yn lle chwarae gemau, ac mae gofyn iddyn nhw roi trefn ar</p>	<p><b>Gweithgaredd: Tocynnau gadael</b></p> <p>Mae'r athro'n darparu post-it neu docyn gadael (gweler y pecyn adnoddau) i'r holl fyfyrwyr ac yn gofyn iddyn nhw ddewis y tri phrif weithgaredd y byddan nhw'n eu rhoi ar waith yn eu bywyd teuluol ar gyfer yr wythnos nesaf. Y myfyrwyr i wirfoddoli i gyflwyno eu cynllun i'r dosbarth. Mae hyn yn cysylltu â'r gwaith cartref a osodwyd.</p> <p><b>Gwaith cartref:</b> Yr athro i ofyn i'r myfyrwyr greu dyddiadur o wythnos arferol gan gynnwys amrywiaeth o weithgareddau i gydbwysu amser ar-lein/chwarae gemau. Gallai'r myfyrwyr hefyd gyflwyno eu dyddiadur ar ddiwedd yr wythnos a phwysu a mesur ei lwyddiant ac unrhyw gamau nesaf.</p>

	<p>y rhain a'u rhannu â'r dosbarth.</p>	<p><b>Athro i atgoffa'r myfyrwyr o ble gallan nhw gael help. Os ydyn nhw'n poeni am eu perthynas eu hunain neu berthynas rhywun arall â chwarae gemau neu gamblo, gallan nhw siarad ag aelod o staff.</b></p> <p><b>Dewisiadau cyfeirio: BigDeal a Childline.</b></p>
--	---	---

## B5G6: ADNODDAU

<p>Darllenwch lyfr newydd cyffrous. Efallai y gallech chi gymryd eich tro i'w ddarllen fel teulu. Os na allwch chi, fe allech chi gael amser gwych yn ei ddarllen ar eich pen eich hun.</p>	<p>Dysgwch bobî neu goginio rhywbeth. Gallech hyd yn oed baratoi pryd gyda'r nos i'r bobl agosaf atoch chi, neu bwdin blasus!</p>
<p>Ewch ati i greu dosbarth ymarfer corff. Gallech chi gael y teulu cyfan neu ffrindiau i gymryd rhan a gallech chi arwain y dosbarth!</p>	<p>Ysgrifennwch stori neu greu llyfr comic. Canolbwyntiwch ar greu'r prif gymeriadau a chreu antur iddyn nhw. Gallech ei droi'n llyfr gyda chlawr a nod tudalen.</p>
<p>Dysgwch rywun arall yn y teulu sut i wneud rhywbeth. Ydych chi wrth eich bodd â phêl-droed? Ydych chi'n artist? Beth allech chi ei ddysgu i rywun?</p>	<p>Ewch am dro. Ewch allan am awyr iach a darganfod rhywle newydd. Gallech hyd yn oed greu rhestr o eitemau i chwilio amdanyn nhw a rhoi tic wrth bob un wrth i chi ddod o hyd iddyn nhw ar eich taith.</p>
<p>Cymerwch ran mewn chwaraeon tîm. Allech chi chwarae pêl-droed neu rygbi? Tennis neu dag? Gallech hyd yn oed ysgrifennu'r rheolau fel nad oes neb yn twyllo!</p>	<p>Cynlluniwch gystadleuaeth mabolgampau. Ewch ati i greu cyfres o ddigwyddiadau i bobl gymryd rhan ynddyn nhw. Gallech hyd yn oed ddylunio tystysgrifau.</p>
<p>Allech chi ddysgu sgil newydd? Gallech ddysgu chwarae offeryn cerdd neu ddysgu tric hud i'w berfformio.</p>	<p>Adeiladwch gaer. Mae adeiladu caer a man gwersylla yn gyffrous - y tu mewn neu'r tu allan! Gallech hyd yn oed ddysgu rhywfaint o sgiliau goroesi.</p>

Tocyn gadael. 1. 2. 3.	Tocyn gadael. 1. 2. 3.	Tocyn gadael. 1. 2. 3.	Tocyn gadael. 1. 2. 3.
Tocyn gadael. 1. 2. 3.	Tocyn gadael. 1. 2. 3.	Tocyn gadael. 1. 2. 3.	Tocyn gadael. 1. 2. 3.
Tocyn gadael. 1. 2. 3.	Tocyn gadael. 1. 2. 3.	Tocyn gadael. 1. 2. 3.	Tocyn gadael. 1. 2. 3.
Tocyn gadael. 1. 2. 3.	Tocyn gadael. 1. 2. 3.	Tocyn gadael. 1. 2. 3.	Tocyn gadael. 1. 2. 3.
Tocyn gadael. 1. 2. 3.	Tocyn gadael. 1. 2. 3.	Tocyn gadael. 1. 2. 3.	Tocyn gadael. 1. 2. 3.
Tocyn gadael. 1. 2. 3.	Tocyn gadael. 1. 2. 3.	Tocyn gadael. 1. 2. 3.	Tocyn gadael. 1. 2. 3.
Tocyn gadael. 1. 2. 3.	Tocyn gadael. 1. 2. 3.	Tocyn gadael. 1. 2. 3.	Tocyn gadael. 1. 2. 3.
Tocyn gadael. 1. 2. 3.	Tocyn gadael. 1. 2. 3.	Tocyn gadael. 1. 2. 3.	Tocyn gadael. 1. 2. 3.